Another challenge is the age eligibility for non-priority sectors such as Administration/Management where, unless a learner immediately progresses from one level to another, they may not be able to progress unless they are aged 16-24 at the time of progression and 'new to job role' which needs to be evidenced. If the age restriction was removed then learners could progress at their own pace and in line with their careers/employer needs.

Use of RPL by all post-16 institutions in Wales to prevent duplication of activity e.g., learners with a Level 4 Apprenticeship shouldn't have to repeat the full 1st year of a Degree Apprenticeship, there is also a lack of understanding in HE of Credit Values of QCF qualifications as many of the awards do not align directly with, HE credits and therefore viewed as a lesser qualification. The WBL element is overlooked as valid learning time that equates to, HE credits.

Barriers – other than those mentioned above re; learner costs and SME/Micro business costs some aspects of the Apprenticeship policy needs reviewing to meet employer needs, e.g., length of programme where providers are penalised financially for achieving a framework with a learner at less than 80% of the set length of stay (which varies by framework and level), when an employer wants an apprentice to achieve sooner it means greater input from the provider therefore the resource cost is the same though the funding isn't (this particularly applies when providers are required to mirror Levy funded programmes in England with a minimum length of stay of 12 months and 1 day); the ACW website is not fit for purpose compared to the Institute for Apprenticeships (IFA) website in

England, employers, learners and parents can become frustrated and not engage when they find it difficult to identify the information they need.

**The Welsh Government's Role:** While regional skills partnerships (RSPs) have played a role in promoting skills development to employers and schools, there is limited evidence to suggest that they have significantly increased the uptake of apprenticeships or influenced the development of apprenticeship frameworks. This shortfall is further compounded by the Welsh Government's decision to reduce apprenticeship funding, which is expected to result in 6,000 fewer apprenticeships in 2024–2025. Such cuts have not only hindered efforts to promote apprenticeships but have also led to hesitancy among employers to fully engage with these programmes, further limiting workforce development opportunities.

Although the RSPs and Welsh Government research have provided clear plans to identify and address skills needs across Wales, they lack the ability to influence the broader diversification of vocational qualifications taking place across the UK. This misalignment is creating additional challenges for Awarding Bodies, which are finding it increasingly difficult to sustain or develop new qualifications tailored specifically for Wales. Consequently, a growing number of Awarding Bodies are withdrawing qualifications from Wales due to concerns over viability, exacerbating the lack of choice and flexibility for employers and learners. Welsh Government needs to continue to use the RSP and Apprenticeship Contract Holders Group (vis Medr) as methods of identifying frameworks needed but ensure these are created quickly and that funding is available, listening to the employer voice in particular as they are key to ensuring the development of future Apprenticeships continues in Wales. Finally, addressing these funding shortfalls and qualification challenges is essential to ensuring that apprenticeships remain a viable and attractive option for skills development in Wales.



## Ymgynghoriad ar lwybrau prentisiaeth Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

### Ymateb gan Gyrfa Cymru – Ionawr 2025

#### Cyflwyniad:

Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd cenedlaethol ym maes gyrfaoedd i bobl Cymru, gan gefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n llwyddiannus i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Cymorth a chyfarwyddyd annibynnol, sydd bellach wedi'u gwarantu i bob person ifanc mewn addysg, yw'r cam cyntaf tuag at adeiladu gweithlu'r dyfodol. Mae cyfarwyddyd gyrfaoedd yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu unigolion i gysylltu eu dyheadau a'u galluoedd presennol â phosibiliadau'r dyfodol, gan eu galluogi i fyfrio ar eu huchelgeisiau, eu sgiliau a'u rhinweddau, ac i baratoi ar gyfer gyrfaoedd gwerth chweil. Ar y cyd ag ymagwedd wedi'i thargedu a'i phersonoli, mae Gyrfa Cymru yn chwarae rhan arwyddocaol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chwalu rhwystrau i gyfranogi. Trwy weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, athrawon, rhieni a gwarcheidwaid, rydym yn sicrhau bod pobl ifanc yn gwneud dewisiadau gyrfa gwybodus a deallus.

Mae ein strategaeth Dyfodol Disglair yn amlinellu ein rôl yn y canlynol:

- Cadw pobl yn awyddus i ddysgu
- Annog pobl i beidio â gwrthod cyfleoedd yn rhy gynnar
- Ehangu gorwelion a herio rhagdybiaethau anghywir
- Creu profiadau perthnasol ac amlygiad i fyd gwaith
- Cyfrannu at well canlyniadau addysgol, economaidd a chymdeithasol

Fel gwasanaeth gyrfaoedd ar gyfer pob oed, mae ein cefnogaeth barhaus i unigolion yn parhau hyd at oedolaeth. Mae ein darpariaeth Cymru'n Gweithio yn cefnogi pobl sy'n chwilio am waith neu sy'n ceisio symud ymlaen â'u gyrfa, gan eu helpu i oresgyn rhwystrau a symud ymlaen i waith a hyfforddiant teg a gweddus. Rydym yn darparu cymorth diswyddo hanfodol yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n ceisio newid gyrfa neu sy'n economaidd anweithgar. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at fynd i'r afael â'r heriau sgiliau yng Nghymru. Mae ein gweithgareddau ymgysylltu busnes arloesol wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau a nodwyd yn y gweithle trwy frocera perthnasoedd hanfodol gydag ysgolion. Trwy'r partneriaethau hyn, rydym yn darparu profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ac amlygiad i fyd gwaith i bobl ifanc, wrth helpu busnesau ar yr un pryd i wella eu gweithlu yn y dyfodol.



## Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

### 1. Llwybrau rhwng lefelau prentisiaeth: I ba raddau y mae heriau o ran mapio llwybrau gyrfa drwy'r gwahanol lefelau prentisiaeth, megis o brentisiaeth iau i radd-brentisiaeth. A yw hyn yn anoddach mewn rhai gyrfaedd/sectorau nag eraill.

Nid yw cynllunio gyrfa yn broses linol un maint i bawb – ac mae hyn hefyd yn wir am fapio'r llwybrau amrywiol i swyddi a gyrfaedd. Mae gwybodaeth am brentisiaethau a'r pedair lefel ar gael mewn fformatau amrywiol. Gall pobl ifanc yn yr ysgol gael mynediad at wybodaeth gan eu cyngorydd gyrfa yn ogystal ag athrawon a rhieni. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar wefan Gyrfa Cymru, sy'n amlinellu'r pedair lefel wahanol, sut i wneud cais, a'r cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau. Mae gwefan Gyrfa Cymru'n cael ei defnyddio'n eang mewn ysgolion fel rhan o'r gwaith o ddarparu gyrfaedd a phrofiadau byd gwaith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (1/1/24 – 31/12/24), gwelwyd yr adran chwilio am brentisiaeth 54,000 o weithiau. Y maes sy'n cael ei weld fwyaf o gwmpas prentisiaethau yw '[Cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau](#)'. Mae gwybodaeth hefyd am brentisiaethau ar wefannau Medr, Busnes Cymru, Llywodraeth Cymru ac UCAS. Mae adolygiad o'r gwefannau hyn yn cadarnhau bod gwybodaeth am y gwahanol fathau o brentisiaethau a lefelau yn bodoli, ond nid yw mapiau o lwybrau i yrfaedd amrywiol wedi'u cynnwys. Mae gan wefan Gyrfa Cymru ddolen i dros 780 o dudalennau gwybodaeth am swyddi sy'n amlinellu sut i symud ymlaen yn y swydd benodol honno. Bydd ein cyngorwyr gyrfa cymwys yn cefnogi pobl ifanc ac oedolion i lywio'r wybodaeth wrth drafod eu syniadau gyrfa.

Crëwyd prentisiaethau iau fel modd o annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn cymwysterau galwedigaethol. Mae adroddiad Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024 yn dangos mai dim ond pump coleg sy'n cynnig prentisiaethau iau i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11, sef Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr Abertawe a Grŵp NPTC. Mae'r rhaglen yn fwy o gyflwyniad i ddysgu galwedigaethol na phrentisiaethau ac nid yw'n seiliedig ar unrhyw fframwaith prentisiaeth. Nid oes prentisiaethau iau ar gael yng Ngogledd Cymru a nifer isel o siaradwyr Cymraeg sy'n manteisio ar y ddarpariaeth.

Yn yr adroddiad '[Understanding apprenticeship progression](#)' (Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2020), roedd y prif rwystrau a oedd yn atal cyflogwyr rhag cynnig dilyniant trwy brentisiaethau yn cynnwys anawsterau wrth gyflawni gofynion galwedigaethol safonau prentisiaethau; safonau nad ydynt yn cyd-fynd â newidiadau yn y diwydiant; bod isafswm hyd prentisiaethau yn cael ei ystyried yn rhy hir; a rheoli canran yr amser sy'n ofynnol i ffwrdd o'r gwaith. Roedd cyflogwyr hefyd yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg safonau neu ddarpariaeth i gynnig llwybr dilyniant prentisiaeth llawn. Yn olaf, cyfeiriodd rhai cyflogwyr a darparwyr at rwystrau sefydliadol ehangach sy'n atal datblygiad staff, er enghraifft diffyg swyddi gwag ar lefelau uwch.

Mae nifer cyfyngedig o sectorau yn cynnig gradd-brentisiaethau; felly, dim ond ar lefel sylfaen a phrentisiaeth y mae llawer o alwedigaethau ar gael. Gall cyflogwyr yng Nghymru gynnig gradd-brentisiaeth mewn TG, peirianeg, adeiladu neu weithgynhyrchu uwch trwy bartneriaeth â phrifysgol yng Nghymru. Mae'r cynnig o radd-brentisiaethau yn Lloegr yn llawer ehangach, gan gwmpasu meysydd galwedigaethol fel gofal cymdeithasol, logisteg, rheoli'r gadwyn gyflenwi, a chynaliadwyedd.

Mae llawer o swyddi bellach yn gofyn i weithwyr uwchsgilio ac ailhyfforddi i gydymffurfio â gofynion sero net a thechnolegol. Byddai darparu llwybr i oedolion ddangos y mathau hyn o newidiadau yn heriol gan fod gan



bob cwsmer unigol ystod eang o ddysgu a phrofiadau blaenorol – ac felly nid oes dull cyffredinol. Mae Gyrfa Cymru yn cefnogi oedolion sydd wedi cael eu diswyddo, sy'n ddi-waith neu sy'n ceisio newid gyrfa. Gall llywio argaeledd y ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael yng Nghymru yn aml fod yn heriol. Er enghraifft, efallai y bydd ailsgilio yn gofyn i unigolyn ailddechrau ei hyfforddiant proffesiynol cyfan yn hytrach nag ychwanegu at y sgiliau sydd ganddo eisoes trwy'r cysiau byr sydd ar gael. Mae hyn yn heriol i lawer o oedolion sydd â theuluoedd ac ymrwymadau ariannol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai oedolion gael mynediad at hyfforddiant llwybr carlam, gan ddefnyddio proses o achredu dysgu blaenorol i achredu sgiliau cyflenwol presennol.

## 2. Yr economi: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn cefnogi anghenion busnesau Cymru ac yn cyfrannu at lenwi bylchau sgiliau yn economi Cymru.

Mae'n heriol i ficrofentrau, sy'n cyfrif am 95% o fusnesau yng Nghymru, reoli a hyrwyddo prentisiaethau. Mae'r nifer llai o fusnesau mawr yng Nghymru hefyd yn golygu nifer a throsiant is ar gyfer darparu maint carfan digonol i ddarparwyr redeg prentisiaethau gydag isafswm niferoedd hyfyw.

Yn ôl StatsCymru, roedd 46,610 o ddysgwyr yng Nghymru yn dilyn rhaglenni prentisiaeth.

- 46% yn ddynion
- 54% yn ferched
- 38% rhwng 25 a 39 oed
- 37% yn ymgymryd â Phrentisiaethau Sylfaen (Lefel 2)
- 43% yn dilyn prentisiaethau Lefel 3
- 20% yn dilyn prentisiaethau Lefel 4+ Uwch

Mae'r rhan fwyaf o brentisiaid yn cymryd rhan mewn rhaglenni wedi cychwyn swydd na chânt eu hysbysebu fel prentisiaeth. Nid yw'r rhan fwyaf o brentisiaethau felly'n cael eu hysbysebu fel swyddi gwag nac yn ymddangos ar dudalen chwilio am brentisiaeth Llywodraeth Cymru, felly mae diffyg cyfatebiaeth yn y canfyddiad o argaeledd prentisiaethau a nifer y prentisiaethau gwag sydd ar gael. Mae Gyrfa Cymru yn darparu bwletin swyddi gwag i gwsmeriaid sy'n chwilio am waith neu brentisiaethau, ac mae nifer y prentisiaethau sydd ar gael ar y bwletin yn sylweddol uwch na'r rhai a hysbysebwyd ar ddarganfyddwr prentisiaethau swyddogol Llywodraeth Cymru. Mae dadansoddiad o'r data hwn yn dangos nad oedd dros 63% o'r prentisiaethau a hysbysebwyd ar fwletin swyddi gwag Gyrfa Cymru wedi ymddangos ar gyfleuster chwilio am brentisiaeth Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru mai'r diwydiant iechyd a gofal cymdeithasol ac adeiladu sydd wedi dioddef fwyaf oherwydd toriadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Maen nhw'n adrodd y bu gostyngiad o 565 o brentisiaid ym maes adeiladu yn 2023. Mae data a ddarparwyd gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn awgrymu bod angen cynyddu'r gweithlu 2,200 y flwyddyn tan 2028 ac y bydd toriadau cyllid i brentisiaethau yn gwaethygu'r prinderau hyn ([Effaith Toriadau Cyllid Prentisiaethau yng Nghymru](#)). Mae gradd-brentisiaethau yng Nghymru ar gael ar hyn o bryd yn y sectorau digidol a pheirianeg. Mae angen dybryd o hyd i ehangu ymhellach y cynnig gradd-brentisiaeth i fynd i'r afael â gofynion rhanbarthol allweddol, gan gynnwys meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, sero net, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.



### 3. Cyflogwyr: Cynnwys cyflogwyr wrth hwyluso'r llwybrau hyn a denu prentisiaid. A oes angen cymorth penodol i ficrofusnesau, a busnesau bach a chanolig (BBaCh), ymgysylltu â'r rhaglen brentisiaethau.

Mae maint cyflogwr yn cael effaith ar eu gallu i ddefnyddio prentisiaethau i ddatblygu staff. Efallai y bydd gan gyflogwyr lai o rolau ar gael i brentisiaid symud ymlaen iddynt, llai o gyfle i brentisiaid ddatblygu a dangos y cymwyseddau sy'n ofynnol gan safonau, ac adnoddau cyfyngedig i reoli'r llwyth gwaith ychwanegol o roi prentisiaethau ar waith yn eu busnes. Mae llwybrau dilyniant cryfach yn bodoli lle mae prentisiaethau wedi'u hymgorffori mewn llwybrau achrededig proffesiynol, a lle mae gan gyflogwyr hanes sefydledig o ddefnyddio prentisiaethau neu hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer datblygiad staff.

Gallai'r gostyngiad parhaus yn nifer y prentisiaid sydd ar gael i'w gweld ar offeryn chwilio am brentisiaeth Llywodraeth Cymru fod yn arwydd ffug o argaeledd isel. Nododd y [Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru](#) (Chwefror 2023) y canlynol: "Mae pryderon ymhlith rhanddeiliaid y bydd methu ag ehangu arlwy'r gradd-brentisiaethau yn arwain at niferoedd cynyddol o gyflogwyr yn anfon eu gweithwyr i Loegr i gael mynediad i ddarpariaeth yno (gyda'r risg gynhenid na fyddant yn dychwelyd). Ymhellach, mae cyrsiau gradd-brentisiaeth erbyn hyn ar gael i chwilio amdanynt yng nghronfa ddata UCAS. Er y bydd hyn yn rhoi hwb sylweddol i'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rhai sy'n dymuno astudio mewn prifysgol, bydd hefyd yn dangos graddau'r gwahaniaeth yn yr ystod o radd-brentisiaethau a gynigir yn Lloegr o'i gymharu â'r rhai a gynigir yng Nghymru."

### 4. Gwybodaeth am brentisiaethau: arfer da rhwng gwasanaethau gyrfaoedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr o ran hyrwyddo prentisiaethau a darparu profiad gwaith ystyrlon.

Mae Gyrfa Cymru yn hyrwyddo parch cydradd rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol, yn sicrhau yn benodol bod pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o lwybrau prentisiaeth ac yn cael eu cefnogi i gael mynediad atynt fel y bo'n briodol. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prentisiaethau'n cyfrannu at y nodau o economi gryfach, decach a gwyrddach ac rydym wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd mewn meysydd allweddol.

Mae un o'n dangosyddion perfformiad allweddol yn gysylltiedig â gwella dealltwriaeth dysgwyr o'u hopsiynau yn dilyn cyfweiliad gyda'u cynghorydd gyrfa. Dywedodd 97% o'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg boddhad cwsmeriaid fod y cynghorydd gyrfa wedi eu helpu i ddeall eu hopsiynau (cyfradd ymateb o 26% gan ein cwsmeriaid mewn ysgolion).

Rydym yn darparu gwasanaeth gwell i'r bobl ifanc hynny sy'n nodi mai eu dewis cyntaf yw mynd i mewn i'r farchnad lafur trwy gyflogaeth uniongyrchol neu brentisiaeth. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys mentora parhaus a chymorth cyflogadwyedd gyda phrosesau ymgeisio, CVs a pharatoi ar gyfer cyfweiliad.

Mae Gyrfa Cymru yn trefnu ystod eang o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o brentisiaethau ar draws ysgolion yng Nghymru. Mae gweithgareddau yn cynnwys:

- cyflwyniadau gan gyflogwyr



- ymweliadau safle
- profiad gwaith
- gweithdai ar yr hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano yn eu prentisiaid
- prentisiaid yn dod i siarad am eu profiadau eu hunain o weithio

Mae codi ymwybyddiaeth o brentisiaethau gyda'n cwsmeriaid sy'n oedolion hefyd yn nodwedd allweddol o'n cynnig cymorth. Enghraifft ddiweddar yw digwyddiad a gynhaliwyd yn ein canolfan gyrfaedd ym Merthyr i dynnu sylw at argaeledd prentisiaethau gydag EE. Mynychodd 33 o ymgeiswyr posibl a chawsant eu cefnogi i wneud cais a deall sut y gallai prentisiaeth weithio iddynt. Mae EE wedi ymrwmo i ddarparu cyfleoedd i unigolion o ystod amrywiol o gefndiroedd ac roedd yn hapus gyda'r niferoedd a fynychodd a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru.

Hyd at 2015, roedd Gyrfa Cymru yn rheoli'r gwasanaeth lleoli profiad gwaith, gan leoli 90% o fyfyrwyr CA 4. Tynnwyd y ddarpariaeth hon o gylch gwaith Gyrfa Cymru gan Lywodraeth Cymru gyda'r disgwyliad y byddai ysgolion yn parhau i gynnig profiad gwaith i'w dysgwyr ac yn asesu risgiau mewn lleoliadau eu hunain. Mae'r arlwy presennol i bobl ifanc yn dameidiog ac yn dibynnu ar ysgolion unigol ac awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaeth fetio. Byddai Gyrfa Cymru yn cefnogi'r angen i gynnal astudiaeth ddichonoldeb o amgylch galw ac awydd ysgolion ac awdurdodau lleol i ailsefydlu gwasanaeth lleoli canolog ar gyfer profiad gwaith.

Argymhelliad o'r adroddiad Pontio i Gyflogaeth (Dr Hefin David, 2023) oedd yr angen i ddatblygu cynnig wedi'i dargedu o brofiad gwaith wedi'i deilwra ar gyfer dysgwyr CA 4 sy'n ymddieithrio o addysg ac sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae Gyrfa Cymru wedi darparu rhaglen profiad gwaith wedi'i theilwra ar ran Llywodraeth Cymru am y tair blynedd diwethaf. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24:

- Cwblhaodd 380 o ddysgwyr leoliad gwaith
- Aeth 85.6% o'r bobl ifanc hyn ymlaen i gyrchfan cadarnhaol ar ddiwedd y rhaglen
- Aeth 25 o bobl ifanc ymlaen i ddechrau prentisiaeth

Mae'r rhaglen hon wedi'i thargedu at bobl ifanc sydd wedi'u nodi fel rhai a allai fod yn NEET oherwydd eu diffyg presenoldeb yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, cynigir y rhaglen hon ar draws pum awdurdod lleol yng Nghymru. Byddem yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnig hwn i bobl ifanc ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Mae sawl gwlad Ewropeaidd yn adnabyddus am eu rhaglenni prentisiaeth effeithiol. Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys y canlynol:

- System addysg ddeuol yr Almaen, sy'n uchel ei pharch. Mae'n cyfuno cyfarwyddyd ystafell ddisbarth gyda hyfforddiant yn y gwaith, gan ganiatáu i brentisiaid gael profiad ymarferol wrth astudio. Mae'r system hon wedi'i hintegreiddio'n dda ag anghenion y farchnad lafur, gan sicrhau cyfraddau cyflogaeth uchel i raddedigion.
- Mae gan y Swistir system brentisiaeth gadarn sy'n cynnig ystod eang o opsiynau hyfforddiant galwedigaethol. Mae prentisiaethau ar gael mewn meysydd amrywiol, ac mae'r system wedi'i dylunio i fod yn hyblyg, gan ganiatáu i brentisiaid newid rhwng gwahanol lwybrau gyrfa os oes angen.



- Mae rhaglen brentisiaethau Awstria yn debyg i raglen yr Almaen, gyda phwyslais cryf ar gyfuno addysg ddamcaniaethol â hyfforddiant ymarferol. Cefnogir y rhaglen yn dda gan y llywodraeth a diwydiant, gan sicrhau bod prentisiaid yn cael hyfforddiant o ansawdd uchel.
- Mae gan yr Iseldiroedd system brentisiaethau ddatblygedig sy'n pwysleisio cydweithio rhwng sefydliadau addysgol a chyflogwyr. Mae hyn yn sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn berthnasol i anghenion y farchnad lafur.

## 5. Tegwch cymorth a mynediad i ddysgwyr: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn agored i holl bobl ifanc Cymru ac unrhyw rwystrau sy'n wynebu grwpiau demograffig neu ardaloedd daearyddol penodol.

Mae data ein harolwg Gwirio Gyrfa yn dangos bod pobl ifanc 14–15 oed yn ymwybodol o brentisiaethau ac maent yn gyson yn ddewis cyntaf i 13.5% o'r garfan ac yn ail ddewis i 21% o'r garfan. Fodd bynnag, o gymharu hyn â'r arolwg hynt disgyblion, mae gwahaniaeth yn y nifer sy'n manteisio arnynt, gyda dim ond 1.6% o'r bobl ifanc yn gadael Blwyddyn 11 a adawodd yr ysgol yn 2024 yn mynd i hyfforddiant seiliedig ar waith gyda statws cyflogedig.

Mae hyn oherwydd amrywiol ffactorau:

- Diffyg argaeledd mewn rhai ardaloedd o Gymru
- Gofynion mynediad uwch na'r rhai sydd gan y person ifanc
- Gall colegau addysg bellach ofyn i berson ifanc fynychu coleg am flwyddyn cyn symud ymlaen i brentisiaeth
- Pwysau costau byw gan deulu, megis yr effaith ar fudd-dal plant, cost ac argaeledd cludiant, a rheoli cyflog prentis
- Diffyg darpariaeth prentisiaeth ym maes gyrfa'r person ifanc, e.e. y gyfraith, celf a dylunio
- Diffyg hyder y byddant yn cael cymorth gan gyflogwr neu i fynd i'r gweithle yn 16 oed
- Diffyg trafndiaeth

Mae'r nifer sy'n cael mynediad at hyfforddiant seiliedig ar waith ôl-18 ychydig yn uwch, gyda 4% yn mynd i hyfforddiant seiliedig ar waith gyda chyflogwr ar ddiwedd Blwyddyn 13. Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar 'anghyfiawnder mewn addysg drydyddol' yn amlygu'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol ac yn nodi eu bod yn llai tebygol o symud ymlaen i addysg drydyddol. Maent hefyd yn llai tebygol o ddilyn prentisiaethau lefel uwch. Roedd bron i un o bob pedwar (23%) o'r rhai a oedd yn dilyn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn dod o gartrefi difreintiedig o ran cyflogaeth. Mae tueddiad clir i'w weld mewn statws amddifadedd cyflogaeth yn unol â lefel y cymhwyster dysgu seiliedig ar waith sy'n cael ei ddilyn. Roedd lefelau amddifadedd cyflogaeth ar eu huchaf ymhlith dysgwyr a oedd yn dilyn hyfforddiant ymgysylltu (33%) neu Lefel 1 (31%). Mae'r ffigurau hyn yn gostwng yn raddol ar gyfer y rhai sy'n dilyn prentisiaethau sylfaen (23%), prentisiaethau (18%), a phrentisiaethau uwch (12%).

Mae cyflog isel yn rhwystr i brentisiaid hŷn sydd eisiau newid gyrfa; oherwydd eu cyfrifoldebau ariannol, ni fyddent yn gallu cael mynediad at brentisiaeth gyda dilyniant gyrfa da a rhagolygon da. Mae canlyniadau PISA yn dangos bod dysgwyr Cymru ar ei hôl hi o ran eu cyfoedion yng ngweddill y DU gyda'u sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol ac felly efallai nad oes ganddyn nhw'r cymwysterau/sgiliau perthnasol i gael



mynediad i brentisiaeth. Bydd llawer o brentisiaethau yn gofyn i ddysgwyr ennill Lefel 2 Saesneg a Mathemateg cyn y gallant symud ymlaen i brentisiaeth Lefel 3.

Mae rhwystrau eraill yn cynnwys:

- Diffyg profiad gwaith yn effeithio ar amlygiad pobl ifanc i'r gweithle
- Mae pobl ifanc ag anabledd yn fwy tebygol o aros mewn addysg yn hytrach na mynd i waith neu hyfforddiant – maent yn fwy tebygol o wynebu heriau cludiant ac yn fwy tebygol o ddod yn NEET
- Mae anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn parhau o fewn sectorau – er enghraifft, mae llai o fenywod yn dechrau ar brentisiaethau adeiladu a pheirianneg

Ystyriaeth allweddol arall yw, gyda'r cynnydd yn y galw am sgiliau iaith Gymraeg yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, bod angen prentisiaethau iaith Gymraeg.

## **6. Rôl Llywodraeth Cymru: Sut mae polisiâu'n cefnogi llwybrau prentisiaeth ac unrhyw rwystrau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn hynny o beth. Rôl Llywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill o ran nodi a chyfleu anghenion economaidd a sgiliau i lywio fframweithiau prentisiaeth a darparu cymwysterau.**

Bydd Medr yn chwarae rhan allweddol wrth adolygu argaeledd prentisiaethau addas a hygyrch i bawb ledled Cymru. Rydym yn croesawu eu huchelgais i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac eraill i ddiffinio sut olwg ddylai fod ar ddarpariaeth prentisiaethau Cymru i ddiwallu anghenion dysgwyr a'r economi yng Nghymru, hyrwyddo ymgysylltiad cryf â chyflogwyr, a sicrhau safonau cymhwysedd galwedigaethol trwyadl.

Byddem yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adroddiad Pontio i Gyflogaeth ac yn ystyried argymhellion ynghylch profiad gwaith a gradd-brentisiaethau. Mae gyrfaeodd a phrofiadau byd gwaith yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm a gallant gyfrannu'n allweddol at amlygu plant, pobl ifanc, rhieni ac athrawon i fyd gwaith. Er bod Gyrfa Cymru yn cynnig ystod eang o weithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr ar gyfer ysgolion uwchradd, mae angen adolygu'r awydd am wasanaeth lleoli ar gyfer profiad gwaith i bob disgybl. Byddai Gyrfa Cymru yn cefnogi'r angen i gynnal astudiaeth ddichonoldeb gydag ysgolion, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol ynghylch y galw a'r gofynion ar gyfer ailsefydlu cynnig profiad gwaith. Mae angen mawr i ehangu'r cynnig gradd-brentisiaethau presennol i gynnwys meysydd eraill o angen yn y rhanbarth megis iechyd a gofal cymdeithasol, adeiladu, carbon isel / ynni gwyrdd, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae cyfyngiadau ar y data yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ynghylch ble mae pobl ifanc yn cael addysg alwedigaethol mewn addysg bellach ac a yw'r llwybrau'n gynyddol ac wedi'u cysylltu'n glir â'r cwrs astudio o'u dewis. Byddai argaeledd data sy'n dangos cyfraddau dilyniant a chwblhau ar gyfer pob prentis sy'n gysylltiedig â dyheadau gyrfa pobl ifanc yn cefnogi mesur canlyniadau a chynllunio strategol. Yn ogystal â hyn, mae Gyrfa Cymru ar hyn o bryd yn hwyluso'r Model 5 Haen ar ran Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, a defnyddir y model hwn i olrhain pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed drwy eu cyrchfannau amrywiol. Darperir y data hwn i awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio strategol a chefnogi pobl ifanc. Mae Gyrfa Cymru wedi cyflwyno prototeip i Lywodraeth Cymru o hyb gwybodaeth data Cymru gyfan, a allai ddefnyddio data gan Gyrfa Cymru, ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu hyb data Cymru gyfan ymhellach a fydd yn llywio cyfarwyddyd



gyrfaoedd a darpariaeth gwasanaethau awdurdodau lleol ac yn galluogi darparwyr addysg i ystyried priodoldeb eu cynnig dysgu i ddiwallu anghenion/dyheadau dysgwyr, ond hefyd yn llywio dadansoddiadau a thystiolaeth ar gyfer anghenion marchnadoedd a diwydiannau llafur heddiw ac yn y dyfodol.

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn chwarae rhan allweddol wrth nodi prinder sgiliau yn eu rhanbarth a mapio yn erbyn y ddarpariaeth. Maent yn allweddol o ran cysylltu cyflogwyr, addysgwyr a rhanddeiliaid eraill â Llywodraeth Cymru.

**Dolenni defnyddiol:**

[Understanding-Apprenticeship-Progression.pdf](#)

[Adolygiad o'r rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru.pdf](#)

[Myfyrdodau-arbenigol-ar-yr-heriau.pdf](#)

[Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau](#)

[All there is to know about European apprenticeships close to hand | CEDEFOP](#)

[Apprenticeships – Y Comisiwn Ewropeaidd](#)

[https://www.ntfw.org/wel/wp-content/uploads/2024/11/20241112\\_Effaith-Toriadau-Cyllid-Prentisiaethau-yng-Nghymru\\_CY.pdf](https://www.ntfw.org/wel/wp-content/uploads/2024/11/20241112_Effaith-Toriadau-Cyllid-Prentisiaethau-yng-Nghymru_CY.pdf)

[Prentisiaethau: datganiad polisi | LLYW.CYMRU](#)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon